# SL(5)636 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy’n Teithio i Gymru etc.) 2020 (”y Rheoliadau Gwybodaeth”) yn gosod gofyniad ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy’n dod o’r tu allan i’r ardal deithio gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru (”gweithredwyr”) i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodol i deithwyr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio’r Rheoliadau Gwybodaeth er mwyn—

- ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu’r wybodaeth yn ystod cam ychwanegol, sef 24 i 48 o oriau cyn yr amser y disgwylir i wasanaeth teithwyr rhyngwladol ymadael, a
- diweddaru’r wybodaeth sydd i’w darparu cyn yr archebir taith a chyn y cofrestrir ar gyfer taith, ac yn ystod y daith i’r porthladd yng Nghymru.

Mae rheoliad 2(3) yn diwygio rheoliad 3 o’r Rheoliadau Gwybodaeth er mwyn pennu’r wybodaeth wedi ei diweddaru sydd i’w darparu cyn yr archebir taith a chyn y cofrestrir ar gyfer taith.

Mae rheoliad 2(4) yn mewnosod rheoliad 3A newydd yn y Rheoliadau Gwybodaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu’r wybodaeth 24 i 48 o oriau cyn yr amser y disgwylir i wasanaeth teithwyr rhyngwladol ymadael.

Mae rheoliad 2(5), (6) a (7) yn gwneud diwygiadau canlyniadol, gyda rheoliad 2(7) yn diwygio rheoliad 6 o’r Rheoliadau Gwybodaeth (Troseddau), fel bod person sy’n torri gofyniad yn rheoliad 3A(2) yn cyflawni trosedd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy.

Mae rheoliad 2(8) yn amnewid yr Atodlen i’r Rheoliadau Gwybodaeth.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu’r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2 (v) –** bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae rheoliad 2(3) yn amnewid y testun newydd i reoliad 3(2) o'r Rheoliadau Gwybodaeth ac yn rheoliad newydd 3(2)(d) mae'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwr ofyn i'r wybodaeth berthnasol gael ei throsglwyddo i unrhyw berson y mae archeb yn cael ei gwneud ar ei ran, neu daith sy'n cael ei chofrestru. Nid yw'n glir a ddylai'r cais hwnnw fod yn ysgrifenedig neu a ellir ei wneud ar lafar.

Mae hyn yn wahanol i reoliad 3A(5) newydd, a fewnosodir gan reoliad 2(4). Mae'n nodi pan fo person arall yn archebu taith ar wasanaeth teithwyr rhyngwladol ar ran teithiwr arall, cydymffurfir â'r rheoliad os darperir y wybodaeth berthnasol i'r person hwnnw rhwng 24 i 48 o oriau cyn yr amser ymadael a drefnwyd, ynghyd â chais ysgrifenedig yn gofyn iddynt ddarparu'r wybodaeth honno i'r teithiwr.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi na chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *Yn dilyn cod asesu effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is ddeddfwriaeth, mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o'r ymateb i bandemig parhaus COVID-19 ac mae angen eu rhoi ar waith ar frys. Felly, nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi.*
>
> *Fodd bynnag, mae asesiad cychwynnol yn dangos bod effaith y Rheoliadau Diwygio ar weithredwyr yn isel.*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Hydref 2020**